



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru – Heb eu Cadarnhau
14 Mehefin 2022 am 15:30 dros Microsoft Teams**

Yn bresennol		
Mohammed Mehmet	(MM)	Cadeirydd y cyfarfod, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl
Kate Eden	(KE)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Hefyd yn Bresennol:		
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaeth Archwilio Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Angela Fisher	(AF)	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Mike Jones	(MJ)	Archwilio Cymru
Lucy Jugessur	(LJ)	Rheolwr Archwilio Cyllid, Gwasanaeth Archwilio Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Jane Matthews	(JM)	Pennaeth Adrodd Ariannol a Rheolaeth, Cyllid
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd y Bwrdd
Ymddiheuriadau:		
Robert Bailey	(RB)	Cynrychiolydd Undeb Llafur

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol Cofnodion Heb eu Cadarnhau – 14 Mehefin 2022
------------------------	---

Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Andrew Cottom	(AC)	Ymgynghorydd Annibynnol
Dyfed Edwards	(DE)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol
Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Verity Winn	(VW)	Archwilio Cymru

Ysgrifenyddiaeth		
Reanne Reffell	(RR)	Swyddog Cymorth y Bwrdd

Dechreuodd y cyfarfod am 15:30

ACGC 1/2022.06.14 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Agorwyd y cyfarfod gan MM, a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol.

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cefnogi cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl i'r cofnodion gael eu cytuno yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi 2022.

Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

ACGC 2/2022.06.14 Datgan Buddiannau

Datganwyd buddiant mewn perthynas ag eitem ACGC 3.4/2022.06.14 Adroddiad Drafft ar Dâl a Chydnabyddiaeth 2021-22, gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol.

ACGC 3/2022.06.14 Adroddiad Diwedd Blwyddyn/Datganiadau Ariannol a Llywodraethu Blynyddol

ACGC 3.1/2022.06.14 Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol – Barn ac Adroddiad Blynyddol 2021/22

Amlinellodd PD y mân newidiadau a wnaed i'r adroddiad ers i'r Pwyllgor ystyried y fersiwn ddrafft yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 05 Mai 2022; cadarnhaodd bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael sicrwydd rhesymol cyffredinol.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y cyflawniad na fu unrhyw adroddiad archwilio â sicrwydd cyfyngedig, wrth gydnabod bod angen parhau i sicrhau bod rheolaethau, llywodraethu a phrosesau risg yn effeithiol ledled y sefydliad.

Nododd y Pwyllgor bod tri archwiliad wedi'u gohirio ac y byddent yn cael eu cynnal yn 2022/23.

ACGC 3.2/2022.06.14 Barn Flynyddol Archwilio Cymru (ISA 260)

Cyflwynodd MJ yr adroddiad gan roi gwybod am fwriad Archwilio Cymru i gyhoeddi barn archwilio amodol ar reoleidd-dra tra bod y farn am wirionedd a thegwch y cyfrifon yn parhau i fod yn ddiamod.

Dyddiad: 14 Mehefin 2022	Fersiwn: 0	Tudalen: 2
---------------------------------	-------------------	-------------------

Nododd y Pwyllgor fod y farn amodol ar reoleidd-dra yn berthnasol i gynllun pensiwn y GIG a weithredir gan Lywodraeth Cymru ac nad oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau yn hyn o beth.

ACGC 3.3/2022.06.14	Datganiad Ariannol a Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2021/22
Nododd HG fod y Pwyllgor wedi cael cyflwyniad manwl ar y cyfrifon drafft yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mai 2022. Ers y cyfarfod hwnnw, roedd y cyfrifon drafft wedi cael eu cyflwyno i Archwilio Cymru i'w harchwilio ac roedd crynodeb o'r cywiriadau a wnaed wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 o Adroddiad Archwilio Cyfrifon Archwilio Cymru – Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2021/22.	
ACGC 3.4/2022.06.14	Adroddiad Atebolrwydd Drafft 2021/22
Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad drafft wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn y cyfarfod ar 5 Mai 2022, cyn iddo gael ei gyflwyno i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru i'w adolygu, a bod crynodeb o'r newidiadau a wnaed i'r adroddiad o ganlyniad i sylwadau Archwilio Cymru, Llywodraeth Cymru a' Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad eglurhaol.	
ACGC 3.5/2022.06.14	Argymhelliad i'r Bwrdd
Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi sylwadau am yr adroddiadau. Diolchodd holl aelodau'r Pwyllgor i dimau'r Uned Cyllid a Busnes y Bwrdd am eu gwaith caled a'u cymorth wrth gyflwyno'r set o gyfrifon. Aeth HG yn ei flaen i argymhell y set derfynol o gyfrifon i'r Bwrdd eu cymeradwyo, a hynny'n amodol ar ganfyddiad yr Archwiliad.	
Cymeradwyodd y Pwyllgor yr Adroddiad Diwedd Blwyddyn/Datganiadau Ariannol a Llywodraethu a restrwyd, i'r Bwrdd eu cymeradwyo yn ei gyfarfod ar 14 Mehefin 2022, a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru erbyn 15 Mehefin 2022.	
ACGC 4/2022.06.14	Eitemau i'w Cymeradwyo
ACGC 4.1/2022.06.14	Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol
Derbyniodd y Pwyllgor y cofnodion a'r cofnod o gamau gweithredu (cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mai 2022), a chan nodi ymddiheuriadau gan DE a KY, cytunwyd i ystyried eu cywirdeb a'u cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.	
ACGC 5/2022.06.14	I'w Nodi
Nododd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith ar gyfer 2022/23 (Cyf: 5 ACGC 2022_06_14).	
ACGC 6/2022.06.14	Materion Gweinyddol i Gloi
Byddai'r cyfarfod nesaf ar 22.09.22	

Cyhoeddi Papurau – Byddai Adroddiad Blynyddol 2021/22 yn cael ei gyhoeddi ar ôl i'r Bwrdd ei gymeradwyo ac yna'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:50